


## Helo

Mae paratoadau yn mynd rhagddynt i sicrhau y bydd y cyfnod pan fydd eich plentyn yn symud i Ysgol Uwchradd y Dwyrain ym mis Medi mor ddidrafferth â phosibl.

Mae'r rhifyn hwn yn llawn dop o wybodaeth i roi'r diweddaraf i chi am y datblygiadau cyffrous sy'n digwydd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Gobeithio y bydd y diweddariadau rheolaidd hyn yn ddefnyddiol i chi.

# Y DIWEDDARAF AR Y DWYRAIN

## Eich Plant. Dyfodol Caerdydd.

## UCHAFBWYNTIAU – edrychwch y tu mewn i gael y manylion llawn!

- Mae'r pleidleisiau wedi'u cyfrif a gallwn gyhoeddi bod bathodyn yr ysgol newydd wedi'i ddewis!
- Trefniadau ar gyfer nôl y wisg ysgol newydd
- Digwyddiadau ffarwelio ag Ysgol Uwchradd Llanrhymni
- Trefniadau Diogelwch
- Cymorth cymunedol ar gael i chi

## Bathodyn yr ysgol newydd

### Mae'r canlyniadau wedi dod i mewn a'u dilysu a'r enillydd yw...

Mae hi wedi bod yn wych cydweithio â disgyblion o'r ddwy ysgol a'r ysgolion cynradd partner i lunio fersiwn derfynol o'r wisg ysgol ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Mae rhoi cyfle i ddisgyblion gael dweud eu dweud ar eu gwisg ysgol newydd yn bwysig ac mae'n rhoi perchenogaeth iddynt dros agweddau ar y newidiadau sy'n digwydd ac yn gadael iddynt ddylanwadu arnynt.

Cynhaliwyd pleidlais ym mis Mehefin, yn gofyn i bob disgybl o flwyddyn 6 a hŷn, sef tua 1,500 o ddisgyblion, ddewis eu hoff fathodyn o'r 3 opsiwn terfynol. Arweiniodd hyn at lawer o ddadlau a hwyl ymysg y disgyblion, a oedd yn wych i'w weld.

Dewisodd 65 % o'r disgyblion y bathodyn buddugol ac rydym yn falch iawn o'r cynllun sydd wedi'i ddewis, felly diolch i chi, ddisgyblion! Rydyn ni'n siŵr y byddwch yn cytuno ei fod yn ddewis da a bod y cynllun cyffredinol yn smart ac yn broffesiynol - sy'n cynrychioli ethos Ysgol Uwchradd y Dwyrain i'r dim.

Bydd gwisg ysgol pob disgybl yn cynnwys y bathodyn ar eu siaced a thei, felly buan iawn y byddwch yn dechrau gweld y bathodyn newydd hwn o amgylch y cymunedau!

**Logo newydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain**

EASTERN HIGH
YSGOL UWCHRADD
Y DWYRAIN

Y Diweddaraf ar y Dwyrain

# Nôl y wisg ysgol newydd



Dylech i gyd fod wedi cael llythyr o ysgol bresennol eich plentyn i gadarnhau manylion am y wisg ysgol newydd, gan gynnwys ffurflen archebu i chi i lenwi gofynion maint eich plentyn.

Bydd y wisg ysgol newydd yn barod i'w chasglu ddydd Mawrth 3 Medi a dydd Mercher 4 Medi o Ysgol Uwchradd y Dwyrain (sef hen Ysgol Uwchradd Tredelerch).

Gofynnir i ddisgyblion gasglu'r wisg ar yr amseroedd a dyddiadau canlynol: Mae'r grwpiau blwyddyn yn golygu'r flwyddyn y bydd eich plentyn ynddi y mis Medi hwn, nid eu grŵp blwyddyn presennol.

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 3 Medi | 9.30 am – 12 pm | Blwyddyn 7 |
| Dydd Mawrth 3 Medi | 12. 30 pm - 3 pm | Blwyddyn 8 a 9 |
| Dydd Mercher 4 Medi | 9.30 am – 12 pm | Blwyddyn 10 a 11 |
| Dydd Mercher 4 Medi | 5pm – 7pm | Pob blwyddyn |

Mae'r wisg ysgol yn ceisio adlewyrchu diwylliant ac ethos Ysgol Uwchradd y Dwyrain, a bydd yn edrych yn smart a chwaethus. Ffactorau pwysig eraill wrth benderfynu ar y wisg ysgol newydd oedd pa mor gyfforddus ydyw, cost a gwydnwch.

Bydd yr ysgol yn talu am gost **un wisg ysgol** (heblaw am esgidiau) ac **un cit chwaraeon** (heblaw am esgidiau) i bob disgybl, ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

## Gwisg ysgol ychwanegol

Os hoffech brynu gwisg ysgol ychwanegol gallwch wneud hynny o **YC Sports, 86 – 90 Crwys Road, Cathays, Caerdydd Ffôn: 029 2023 7968**. Mae'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd a siopau manwerthu yn gwerthu siwmperi 'v-neck' du a throwsus a sgert, felly mae'n hawdd dewis rhai ychwanegol os oes angen.

## Amseroedd Tymor

Er mwyn i ni wneud yn siŵr bod adeiladau presennol Ysgol Uwchradd Tredelerch yn barod ar gyfer mis Medi, bydd tymor yr ysgol yn dod i ben i ddisgyblion ddydd **Gwener 12 Gorffennaf 2013**.

Bydd angen i ddisgyblion Blwyddyn 10 sydd wedi trefnu profiad gwaith barhau i fynd arno yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 15 Gorffennaf.

Dechrau'r tymor newydd ym mis Medi fydd **dydd Llun 9 Medi 2013**, sef wythnos yn hwyrach na'r hyn a nodir yn llyfr mynediad y Cyngor. Bydd angen y diwrnodau ychwanegol i sicrhau bod popeth yn barod ar gyfer y disgyblion. Gall grwpiau blwyddyn gwahanol ddechrau ar ddyddiadau gwahanol. Os mai dyma'r achos, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bydd y trefniadau hyn wedi'u cadarnhau.

Mae llawer o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd cyn gynted â phosibl, gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau i ddisgyblion er mwyn i'r plant ddod i adnabod ei gilydd cyn dechrau'r tymor newydd.

## Casglu Canlyniadau TGAU

Pob lwc i'r holl ddisgyblion sy'n gweithio'n galed i gwblhau eu harholiadau ar hyn o bryd.

Trefnwyd i ddisgyblion gasglu eu canlyniadau arholiadau ar 22 Awst fel hyn:

**Disgyblion Ysgol Uwchradd Tredelerch - O'R YSGOL.**

**Disgyblion Ysgol Uwchradd Llanrhymni - CASGLU O GANOLFAN IEUENCTID LLANRHYMNI.**

Fel arall, os ydych wedi gwneud cais i ganlyniadau'ch plentyn gael eu postio i'ch cyfeiriad cartref, ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar eich trefniant.

Os yw eich mab neu ferch ym mlwyddyn 10 ac yn astudio ar gyfer eu TGAU, gallant barhau â'r pynciau y maent yn eu hastudio ym mis Medi, er nid o reidrwydd gyda'r un athro.

# Arweinyddiaeth yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain

Cynigiwyd cyfle cyffrous i Mr Gareth Cooke fod yn rhan o Gonsortiwm Canolbarth y De o ddiwedd y tymor hwn. Dymunwn y gorau i Mr Cooke yn ei swydd newydd gan ddiolch iddo am ei holl gefnogaeth, ymroddiad a gwaith caled dros y blynyddoedd.

O fis Medi, Pennaeth yr ysgol fydd Ms Karen Gittins, fel y cytunodd corff llywodraethu Tredelerch a chorff llywodraethu cysgodol Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Roedd cyflwyniad i Ms Gittins yn y diweddariad diwethaf. Dywedodd, *"Rwyf wrth fy modd o gael dychwelyd i Gymru i arwain Ysgol Uwchradd y Dwyrain newydd, a fydd yn chwarae rhan arwyddocaol wrth drawsnewid y ddarpariaeth addysg i ddysgwyr a'r gymuned ehangach yn nwyrain Caerdydd."*

Mae angen arweinyddiaeth uwch cryf i gefnogi Ms Gittins yn ei swydd newydd. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, mae'r cyrff llywodraethu wedi cytuno i benodi Wendy Rees fel Uwch Ddirprwy Bennaeth fel trefniant dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod. Hefyd, bydd dau Ddirprwy Bennaeth a phedwar Pennaeth Cynorthwyol ychwanegol mewn swyddi. Caiff manylion am y rhain eu dosbarthu unwaith y cânt eu penodi.

Bydd y broses o recriwtio gweithlu parhaol i Ysgol Uwchradd y Dwyrain, sy'n agor yn ffurfiol fel ysgol newydd ar 1 Medi 2014, yn dechrau yn nhymor yr hydref.

# Disgyblion yn croesawu'r dyfodol

Mae nifer o ddigwyddiadau 'trawsnewid' wedi'u cynnal dros yr ychydig fisoedd diwethaf i helpu disgyblion gyda'r newidiadau sy'n digwydd. Mae'r digwyddiadau yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddod i adnabod ei gilydd, siarad am unrhyw bryderon sydd ganddynt a chreu cyffro am y dyfodol.

Aethom draw i un o'r digwyddiadau Blwyddyn 7 a siarad â rhai o'r disgyblion, i weld sut maent yn teimlo am y newidiadau sy'n digwydd.

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain, yn gofyn i'r disgyblion feddwl am ba werthoedd y dylai'r ysgol newydd eu cael, a pha ymddygiad sydd ei angen i gyflawni'r gwerthoedd hyn. Ymysg rhai o'r themâu poblogaidd a ddaeth i'r amlwg oedd **'Parch'**, **'Gwrando'**, a **'Gofalu am eraill'**.

Roedd hefyd yn gyfle i fynegi eu pryderon a'r hyn roeddent yn edrych ymlaen fwyaf ato ym mis Medi. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau a gweithgareddau, gyda chymorth gweithwyr ieuenctid, athrawon a gwirfoddolwyr o Gymunedau yn Gyntaf i ateb rhai o'u hymholiadau a rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Mae safbwyntiau'r disgyblion hyn mor bwysig. Bydd y gweithgareddau yn helpu i greu diwylliant cadarnhaol wrth wraidd yr ysgol newydd. Roedd yn wych gweld dwy gymuned ysgol yn rhyngweithio'n dda, yn dod i adnabod ei gilydd ac yn siarad am y dyfodol. Gobeithio y gallwn ddod â rhagor o fanylion i chi am ganlyniadau'r digwyddiadau hyn yn y rhifyn nesaf.









Y DIWEDDARAF AR Y DWYRAIN

# Ysgol Uwchradd Llanrhymni 1957 - 2013

Er mwyn nodi diwedd oes Ysgol Uwchradd Llanrhymni a chydnabod ei hanes dros y 56 mlynedd ddiwethaf, mae amrywiaeth o ddigwyddiadau arbennig wedi eu trefnu.

Mae disgyblion, rhieni ac athrawon presennol, a rhai o'r gorffennol, wedi bod yn talu teyrnged er mwyn ffarwelio â'r ysgol yn briodol a nodi dechrau'r dyfodol cyffrous o fis Medi.

Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd Musical Mash Up, sef cynhyrchiad mawr a oedd yn arddangos doniau canu ac actio yr ysgol gyda chlasuron o'r sioeau cerdd We Will Rock You, Hairspray a Grease – roedd y sioe mor boblogaidd roedd yn rhaid cynnal dau berfformiad!

Daeth hoelion wyth y gymuned at ei gilydd ar 8 Gorffennaf i fwynhau digwyddiad Coffa, gan rannu hen eitemau, lluniau ac arteffactau. Hoffai'r ysgol estyn diolch i bawb a roddodd fenthyg lluniau ac eitemau ar gyfer yr arddangosfeydd. Roedd yn ddigwyddiad arbennig iawn, gyda'r gwesteion yn mwynhau hel atgofion. Roedd hi'n wych gweld gymaint o wynebau cyfarwydd yn y digwyddiad hefyd!











## Barbyciw Ddoe a Heddiw 12 Gorff

Gwahoddir staff hen a newydd yr ysgol i farbyciw yng Nghlwb Golff Peterstone Lakes am noson o atgoffa ac adloniant nos Wener 12 Gorffennaf am 7.30pm. Tocynnau ar gael o'r ysgol.

**Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd Llanrhymni, John Barnbrook**

*"Yng nghanol prysurdeb bywyd ysgol arferol, gan weithio i gynnal safonau dysgu uchel, mae staff, disgyblion a chymuned Ysgol Uwchradd Llanrhymni hefyd yn paratoi i gau'r ysgol bresennol a symud i Ysgol Uwchradd y Dwyrain newydd. Ar ôl chwarae rhan bwysig ym mywydau cynifer o bobl am dros hanner can mlynedd, nid yw'n syndod bod cau'r ysgol yn deffro atgofion o gyfnodau a fu. Mae'r ysgol yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau i nodi'r achlysur arwyddocaol hwn. Bydd cinio ffurfiol i bobl sydd wedi gweithio gyda'r ysgol yn ystod ei hanes, barbeciw i'r disgyblion presennol ac achlysur dathlu olaf i'r staff presennol sydd wedi gweithio mor galed i gynnal morâl a chynnydd drwy gydol y misoedd diwethaf."*

**Y Cynghorydd Heather Joyce, Arweinydd Cyngor Caerdydd**



*"Mae hanes a chymuned Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn annwyl i mi, ac rwy'n falch iawn o'i hanes. Rhoddodd ddechrau gwych mewn bywyd i bedwar o'm hwyrion. Atgofion melys! Fel Cadeirydd y Llywodraethwyr am flynyddoedd, cefais gipolwg unigryw ar y gwahaniaeth go iawn y gall ysgol a'i hethos eu gwneud i bobl ifanc. Rwy'n falch iawn o weld y newidiadau hanesyddol sy'n digwydd yn nwyrain y ddinas. Yn amlwg, mae'r gwaith caled a'r gwaith partneriaeth ag Ysgol Uwchradd Tredelerch dros y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud gwahaniaeth, wrth i ni weld plant y ddwy gymuned yn cymysgu ac yn cydweithio i gynllunio at y dyfodol. Y disgyblion ddewisodd yr enw Ysgol Uwchradd y Dwyrain a bathodyn newydd yr ysgol – dewisiadau penigamp! Mae rhoi'r dechrau gorau posibl i bobl ifanc mewn bywyd yn bwysig iawn i mi a'm cabinet. Rwy'n falch o ddweud bod y dyfodol yn ddisglair, a bydd gweld cenedlaethau'r dyfodol yn y ddinas hon yn datblygu ac yn ffynnu o ganlyniad i'r newidiadau hyn yn arbennig iawn."*

Y DIWEDDARAF AR Y DWYRAIN

# Ysgol Uwchradd Llanrhymni 1957 - 2013

**Y Cynghorydd Derrick Morgan, Arglwydd Faer Caerdydd**



*"Byddaf yn falch iawn o fynychu'r digwyddiadau ffarwel fel y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer, Cynghorydd Ward, Llywodraethwr Ysgol, ond yn bwysicach na dim, fel dyn lleol sy'n falch o dreftadaeth a hanes y gymuned. Rwy'n edrych ymlaen at weld llawer ohonoch yno i ddathlu ein hanes ac edrych ymlaen at ddyfodol cyffrous i'n bobl ifanc a chymuned Llanrhymni."*

**Y Cynghorydd Keith Jones, aelod ward a llywodraethwr ysgol**



*"Fel Cynghorydd Llanrhymni, Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Llanrhymni, cyn ddisgybl yn yr ysgol a mab i ddisgybl arall o'r ysgol, rwy'n falch iawn o hanes yr ysgol. Wrth gwrs, byddaf yn mynychu'r digwyddiadau gyda llawer o falchder a myfyrdod. Mae'r newidiadau wedi bod ar y gweill ers peth amser, a nawr yw'r amser pan mae'r gwaith o drawsnewid addysg yn dechrau. Mae'n amser cyffrous i'r gymuned, yn enwedig ein pobl ifanc sydd wedi dweud wrthyf am eu parodrwydd i groesawu'r cyfleoedd o'u blaenau. Rwyf yma bob cam o'r ffordd i gynnig fy nghyngor a chymorth wrth inni ysgrifennu pennod newydd gyda'n gilydd ym mywyd ein hystâd. Mae Llanrhymni yn gymuned gref a bydd y newidiadau hyn, yn fy marn i, yn dod â buddion ychwanegol, y gallwn i gyd elwa arnynt dros y blynyddoedd i ddod."*

## Dyfodol yr ysgolion

Mae'r gwaith o chwilio am safle priodol ar gyfer adeiladau Ysgol Uwchradd y Dwyrain newydd yn mynd rhagddo. Bydd y cam nesaf yn cynnwys ymgynghori ar y safle(oedd) a ffefrir. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd hyn yn digwydd.

Byddwn yn gweithio gyda disgyblion ysgolion cynradd partner i ymchwilio i wahanol opsiynau a chynlluniau ar gyfer adeiladau'r ysgol newydd y tymor hwn, a bydd yn cynnwys disgyblion presennol yr ysgol uwchradd mewn gweithdai dylunio tebyg o fis Medi. Eto, credwn ei bod yn bwysig rhoi cyfle i ddisgyblion chwarae rhan yn y gwaith o ddylunio eu hamgylchedd ysgol yn y dyfodol. Bydd rhagor o fanylion am y gweithgaredd hwn yn rhifyn nesaf y cylchlythyr.

Mae'n bwysig atgyfnerthu'r ffaith ein bod dal ar y trywydd cywir i Ysgol Uwchradd y Dwyrain symud i'w hadeiladau newydd ym mis Medi 2016.

Yn y cyfamser, mae gwaith gwella wrthi'n cael ei wneud i safle Ysgol Uwchradd Tredelerch i sicrhau bod yr adeilad yn gallu cynnwys y nifer estynedig o ddisgyblion o fis Medi.

## Beth fydd yn digwydd i safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni?

Nid ydym wedi penderfynu eto ar ddefnydd y safle y dyfodol. Mae'n un o'r opsiynau ar gyfer safle yr ysgol newydd. Yn y cyfamser, bydd yr ardal yn cael ei gwneud yn ddiogel i sicrhau ein bod yn osgoi fandaliaeth a niwsans. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y gymuned i wneud yn siŵr bod yr ardal yn cael ei monitro'n agos 24 awr y dydd.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl – byddwn yn cyfathrebu'n uniongyrchol â phreswylwyr ynghylch unrhyw waith adeiladu neu aflonyddwch traffig a fydd yn digwydd unwaith bydd yr ysgol wedi cau'n swyddogol.

Bydd y clwb ieuenctid drws nesaf i'r ysgol yn aros ar agor, gan ddarparu gweithgareddau diddorol i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed.

I gael rhagor o wybodaeth am ba wasanaethau sydd ar gael, ewch i **www.caerdydd.gov.uk/ieuenctid** neu ffoniwch Ganolfan Ieuenctid Llanrhymni ar **2077 8931**.

## Trefniadau Cludiant

Mae taith eich plentyn i'r ysgol ac adref yn bwysig.

Mae'r Cyngor yn annog disgyblion i gerdded neu feicio i'r Ysgol pryd bynnag y bo'n bosibl. Bydd rhagor o wybodaeth am y cynlluniau a'r gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo teithio cynaliadwy i'r Ysgol yn rhifyn nesaf y cylchlythyr.

Gyda chynnydd yn y disgyblion i Ysgol Uwchradd y Dwyrain ym mis Medi, bydd mesurau yn cael eu rhoi ar waith i wella diogelwch ffordd ar Heol Casnewydd.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i atgoffa rhieni o'u cyfrifoldebau o ran ble i barcio eich cerbydau wrth ollwng neu gasglu eich plant. Yn benodol, peidiwch â pharcio eich ceir o fewn safle'r ysgol am resymau diogelwch. Bydd y gatiau yn cau cyn ac ar ôl yr ysgol er mwyn atal hyn rhag digwydd ac i wella diogelwch i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr.

Cymrwch sylw o'r arwyddion traffig. Maent yno er diogelwch i'ch plentyn. Pan yn bosibl, rydym yn eich annog i adael y car gartref a cherdded gyda'ch plentyn i'r ysgol.


Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r tîm cymunedol i nodi llefydd parcio sydd ddim yn rhy bell o'r ysgol os oes angen i chi yrru, ac yn bwriadu trefnu bysus cerdded a threnau seiclo o lefydd yn y cymunedau sy'n gwasanaethu'r ysgol.

Er nad oes trafnidiaeth ysgol ar gael, gan fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw o fewn milltir a hanner i'r ysgol, mae Bws Caerdydd yn rhedeg gwasanaeth o Lanrhymni, Trowbridge a Llaneirwg i Dredelerch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan **www.bwscaerdydd.com** neu ffôn: **029 2066 6444**.



Y DIWEDDARAF AR Y DWYRAIN

# Helpu i wneud yr ysgol yn lle brafiach




Mae Tîm Caerdydd yn Erbyn Bwlio y Cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion ar draws y ddinas i hyrwyddo negeseuon a mentrau gwrth-fwlio, sydd wedi chwarae rhan fawr yn gwneud yr ysgol yn lle brafiach i fod ynddi i nifer o bobl ifanc. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y tîm yn **www.caerdyddynerbynbwlio.co.uk**.

Yn agosach at adref, mae disgyblion Llanrhymni wedi bod yn gweithio gyda'r Full Circle i sefydlu grŵp ymrymuso merched o'r enw 'The Girls Keeping it Real'. Cawsom gyfle i siarad â rhai o aelodau'r grŵp i ganfod mwy am y gwaith pwysig hwn sy'n gallu newid bywydau.

Dywedodd Nikki Giant, sylfaenydd y Full Circle, *"Sefydlwyd y grŵp ymrymuso i godi proffil merched o fewn yr ysgol a mynd i'r afael â materion sy'n effeithio'n benodol ar les merched ifanc."*

Mae'r grŵp ar hyn o bryd yn ymgyrchu i herio bwlio yn yr ysgol a'r gymuned, yn datblygu gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) i ddisgyblion blwyddyn 7 ac yn ymweld ag ysgol gynradd leol i ledaenu neges ymrymuso, gwrth-fwlio a chyfeillgarwch.



Ychwanegodd Nikki, *"Mae'r merched yn frwd ynghylch gwneud gwahaniaeth a dysgu sgiliau gwerthfawr arwain a gwaith tîm drwy'r grŵp allgyrsiol. Maent yn glod i'r ysgol."*

Abbie Hackman, Aelod o Flwyddyn 9
*"Bydd ein hymgyrch yn helpu disgyblion i ddeall gwahanol fathau o fwlio. Nid bwlio corfforol ydyw yn unig, gall fod yn fwlio emosiynol hefyd."*

Jamie-Leigh Merrick, Aelod o Flwyddyn 8
*"Mae wedi bod yn hwyl ac yn addysgiadol i helpu pobl ifanc i ddysgu sut i ddelio â bwlio."*

Mae'r disgyblion yn bwriadu parhau â'r gwaith da hwn yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech chi neu'ch plentyn gymryd rhan cysylltwch â Full Circle ar 07528 343 523 neu ewch i **www.myfullcircle.org** ac ar Facebook **MyFullCircle**

# Galw ar bob Clwb Chwaraeon Iau a Hŷn yn eich ardal!

Rydym yn gwybod bod chwaraeon yn boblogaidd iawn gyda phlant ifanc ac rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod gan blant fynediad i gyfleusterau i ddilyn eu doniau chwaraeon.

I gefnogi'r nod hwn, mae ein cydweithwyr yn Chwaraeon.Caerdydd yn cynnal noson ymgynghori ar 11 Gorffennaf yng Nghanolfan Ieuenctid Llanrhymni o 6pm i glywed barn clybiau iau a hŷn lleol i ddatblygu cynllun gweithredu ardal ar gyfer y clybiau a'u gwneud yn ymwybodol o ba gyfleusterau sydd ar gael iddynt yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.

Rydym yn gobeithio y bydd y rhai ohonoch sy'n ymwneud â chlybiau chwaraeon lleol yn dod draw i ganfod mwy a rhannu eich syniadau a'ch meddyliau. Os hoffech fynychu, cysylltwch â'r tîm Chwaraeon.Caerdydd ar **02920 873938** neu anfonwch e-bost at **lawilliams@caerdydd.gov.uk** i drefnu lle.

Os yw'ch tîm lleol yn chwilio am leoliad addas i chwarae mewn amgylchedd diogel, beth am Goleg Caerdydd a'r Fro yn Trowbridge? Mae ganddynt neuadd chwaraeon llawn maint, sydd ar agor gyda'r nos, ac sy'n cynnig prisiau cystadleuol.

sport cardiff
CARDIFF CAERDYDD
CARDIFF COUNCIL DEVELOPING SPORT
CYNGOR CAERDYDD YN DATBLYGU CHWARAEON
www.sport-cardiff.com

# Cymorth ar gael i chi

Mae llawer o newidiadau yn digwydd yn yr ardal. Ni allem gyflawni'r newidiadau hyn heb help a chymorth gan ein partneriaid yn y gymuned, y mae llawer ohonynt yn adnabyddus i chi, ac rydym yn gobeithio cael sgwrs â nhw mewn cylchlythyrau yn y dyfodol. I ddechrau, siaradom ni â Steve Honeywill sef Uwch Swyddog Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer Cyfranogiad Cymunedol ac sy'n arwain ar brosiectau dysgu'r rhaglen yn nwyrain Caerdydd.

**Helo Steven. Mae'r rhan fwyaf ohonom ni wedi clywed am Gymunedau yn Gyntaf, ond efallai nad yw pawb yn siŵr pa wasanaethau y mae'n darparu. Allwch chi esbonio?**

*Helo. Dim problem. Rhaglen i roi cymorth i gymunedau ledled Cymru yw Cymunedau yn Gyntaf. Mae gennym dîm o 17 o bobl yn gweithio ar draws ddwyrain Caerdydd, Llanedern a Phentwyn sydd yma i weithio gyda phobl leol, grwpiau cymunedol ac asiantaethau i'w helpu i wella bywyd yn y cymunedau hyn. Rydym yma i wrando ar bobl leol, helpu i gysylltu nhw ag eraill sy'n teimlo'r un fath a'u helpu i ganfod atebion i broblemau a chreu cyfleoedd newydd i bobl leol.*

*Rydym ar fin lansio 29 o brosiectau gwahanol yn yr ardal hon a bydd llawer o gyfleoedd i bobl o bob oed gymryd rhan mewn pethau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae ein prosiectau presennol yn cynnwys datblygu clwb gwaith cartref yn Llanrhymni, cefnogi cydweithfeydd bwyd lleol, gwella rhagolygon swyddi pobl leol drwy weithio gyda nhw ar bethau fel defnyddio cyfrifiaduron a darganfod beth mae cyflogwyr ei eisiau, ac yn fuan, byddwn yn defnyddio siopau gwag ar draws yr ardal ar gyfer amrywiaeth o sesiynau blasu a gweithgareddau llawn hwyl.*

**Pa fath o waith ydych chi wedi bod yn gwneud i gefnogi'r cymunedau a'r ysgolion gyda'r newidiadau?**

*Rydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda Chyngor Caerdydd, Partneriaeth Gwella Addysg, yr ysgolion eu hunain a phartneriaid yn y gymuned i gynnig cymorth ac arweiniad ac rydym wedi bod wrth law i gynnig unrhyw gymorth posibl. Yn ddiweddar, cynhaliwyd pleidlais gyda disgyblion, gan wneud yn siŵr bod y papurau pleidleisio yn cael eu casglu gan bob ysgol mewn pryd ar gyfer y cyfrif. Aethom i ddigwyddiad yn Ysgol Gynradd Pen y Bryn lle roedd disgyblion Blwyddyn 6 o sawl ysgol gynradd wedi dod ynghyd i gyfarfod, a chwaraeais 'wink murder' gyda disgyblion Blwyddyn 7 yng Nghanolfan Hamdden y Dwyrain. Roedd hwn yn fore da ac roedd y plant yn cyd-dynnu'n dda a chawsom lawer o hwyl gyda disgyblion o'r ysgol arall. Nid oedd unrhyw densiwn na chystadleuaeth o gwbl.*

*Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn cyfarfod â'r pennaeth newydd, Karen Gittins i gadarnhau ein rôl dros y flwyddyn i ddod a sut y gallwn annog y gymuned i gymryd rhan pan fydd safle'r ysgol newydd yn agor. Rydym yn awyddus i'r ysgol gynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau o bob math yn y gymuned.*

*Un o flaenoriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble i gael help os oes ganddynt broblem yn yr ysgol. Felly, rydym hefyd yn gobeithio gweithio yn y maes hwn i sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cyd-fynd ag arfer da a bod pob plentyn yn teimlo'n hapus ei fod yn gwybod beth i'w wneud os bydd angen cymorth arno.*




**A oes unrhyw gynghorion doeth y gallech eu hawgrymu i rieni i'w helpu dros wyliau'r haf neu i helpu eu plentyn pan fyddant yn symud i Ysgol Uwchradd y Dwyrain?**

*Mae cyfathrebu yn hanfodol. Mae siarad am unrhyw bryderon ac ymholiadau sydd gennych chi a'ch plentyn yn hanfodol. Gall newid olygu pryderon. Canolbwyntiwch ar y pethau cadarnhaol a'r ffaith bod pob disgybl a rhiant yn mynd drwy'r un teimladau hefyd! Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal dros yr haf. Mae croeso i bawb fynd iddynt. Felly, byddwn yn annog rhieni a disgyblion i gymryd rhan oherwydd bydd gwneud ffrindiau a pherthnasau yn golygu sicrwydd a chefnogaeth. Peth arall i'w gofio yw, hyd yn oed pan fydd ysgolion wedi cau dros wyliau'r haf, mae cymorth ar gael o hyd. Bydd aelodau o dîm Dysgu Cymunedau yn Gyntaf ECLP ar gael drwy gydol yr haf, felly dewch i siarad â ni os oes gennych bryderon.*

**Sut gallwn gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau yn Gyntaf?**

*Cysylltwch! Byddwn i neu un o'm cydweithwyr cyfeillgar yn hapus i glywed gennych. Gallwch anfon e-bost ataf yn bersonol i Steven.h@c3sc.org.uk, ffonio ein swyddfa ar 029 2079 2004 neu alw mewn i'n swyddfa yng Nghanolfan Gymunedol Trowbridge os ydych yn yr ardal.*

*Byddwn yn lansio ein gwefan newydd y mis nesaf a fydd yn cynnwys llawer o wybodaeth. Yn ogystal ag egluro ein prosiectau a rhoi cyfle i bobl leol bleidleisio arnynt, byddwn yn hyrwyddo digwyddiadau lleol ac yn cynnig gwybodaeth am gyfleoedd yn yr ardal.*

Gallwch hefyd gofrestru i'n Rhwydwaith Cymunedol i gael gwybodaeth reolaidd am ein gweithgareddau a chyfleoedd eraill yn lleol, neu dilynwch ni ar Twitter neu Facebook.
Twitter - **@ECLPCF**
Facebook
**www.facebook.com/eclp.communitiesfirst**

Diolch am gymryd amser o'ch amserlen brysur i siarad â ni, Steven!

# Teuluoedd yn Gyntaf a'r 'Tîm o amgylch y teulu'

Elusen i blant yng Nghymru yw Tros Gynnal Plant ac mae'n credu bod deall beth mae pobl ei eisiau a sut maent yn teimlo yn bwysig iawn ac mae'n cyfrannu tuag at deuluoedd yn gwneud newidiadau sylweddol yn eu bywydau er gwell.

Mae Tros Gynnal Plant yn rhedeg amrywiaeth o brosiectau gwahanol yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys Tîm o Amgylch y Teulu a Chyfarfodydd Grŵp Teulu yng Nghaerdydd.

**Tîm o Amgylch y Teulu** – Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i ganfod eu cryfderau a'u hanghenion, gan wneud eu cynlluniau eu hunain ac arwain y teulu tuag at eu nodau drwy ddod â'r bobl iawn i helpu.

Pryd gall Tîm o Amgylch y Teulu helpu?

- Rydych yn chwilio am gymorth ac rydych am weithio gyda ni
- Mae gennych blentyn rhwng 0 a 18 oed neu rydych yn disgwyl plentyn. Gallwn hefyd weithio gyda rhai teuluoedd sydd â phobl ifanc hyd at 25 oed os bydd y person ifanc hwnnw yn agored iawn i niwed
- Mae gennych nifer o faterion sy'n peri pryder i chi y gellir ond eu datrys gyda chymorth pedwar gwasanaeth gwahanol neu fwy
- Nid ydych yn ynghlwm â Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd




Cysylltwch â'r Tîm o Amgylch y Teulu ar **029 2034 4681** neu anfonwch e-bost at **TAF@trosgynnal.org.uk**

# Cylch Teulu - Cyfarfodydd Grŵp Teulu

Mae Cylch Teulu yn gweithio gyda theuluoedd yng Nghaerdydd sy'n profi anawsterau. Maent yn gweithio gyda'r teuluoedd i'w helpu i ddatrys materion a chanfod atebion i'r anawsterau maent yn eu hwynebu. Gall yr anawsterau fod gyda'r ysgol, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r plant.

### Pryd gall y Cylch Teulu helpu?

- Rydych yn chwilio am gymorth ac am weithio gyda ni
- Mae gennych blentyn rhwng 8 a 25 oed

Os hoffech ganfod mwy, cysylltwch â'r Cylch Teulu ar **029 2034 4681** neu anfonwch e-bost at **familycircle@trosgynnal.org.uk**

# Cysylltwch â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os hoffech ddweud eich barn, cysylltwch â ni'n uniongyrchol a byddwn yn gwneud ein gorau i'ch ateb. Gallwch ein ffonio ar **2087 2720** neu e-bostio **ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk**

Gallwch ein dilyn ar Twitter **@cyngorcaerdydd** i gael y diweddaraf gan Gyngor Caerdydd. Mae rhagor o wybodaeth hefyd yn **www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion**

Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall. Cysylltwch â ni ar y rhif uchod neu anfonwch e-bost a byddwn yn trefnu hynny i chi.

**www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion**

Arwain Caerdydd
**Adeiladu Cymunedau**


Y DIWEDDARAF AR Y DWYRAIN